

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 6ed o ORFFENNAF 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Theilyngdod Y Maer – Cyngorydd M.Sarnacki (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, W.Tudor Owen, J.W.Parry, K.Richards, S.Sage, I.C.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr E.R.Hughes, K.Jones, B.Owen, W.R.Owen, R.Thomas

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Dim.

3. Datgan Buddiant Personol

Dim.

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

(1) Glanhau Adeilad yr Institiwt

Nodwyd fod Geraint Williams wedi rhoi ei ymddiswyddiad i mewn, ac yn gorffen glanhau Adeilad yr Institiwt ar y 31ain o Orffennaf. Bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn llenwi'r contract cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(2) Hysbysfwrdd wedi ei dorri ar y Maes

Nodwyd fod y drws wedi ei rwygo oddi ar yr hysbysfwrdd ar y Maes. Mae'n debyg y bydd cost atgyweirio yn eithaf tebyg i gost cael hysbysfwrdd newydd. Bydd yn mynd ati i drafod y ffordd orau o gael datrysiad efo'r cwmni.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 1af o Fehefin 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir

gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (unfrydol).

ii. Pwyllgor Personél, 17eg o Fehefin 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

iii. Pwyllgor Cyllid, 22ain o Fehefin 2021(eitemau 8 a 9 yn unig yn eithriedig)

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Derbyn fel rhai cywir.

(2) Gwahodd y Wasg a'r cyhoedd yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

6.Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).

7.Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

8. Gwasanaeth Ieuencid

Cafwyd cyflwyniad gan Sion Bryn Roberts, y Gwasanaeth Ieuencid, ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran Clwb Ieuencid Caernarfon, a beth oedd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf.

Nodwyd y canlynol:

(1) Bod y niferoedd wedi disgyn.

(2) Oherwydd Covid roedd y Clwb mor bwysig nawr nag oedd erioed wedi bod, a bod pobl ifanc angen gofod diogel er mwyn rhannu profiadau a hybu sgiliau cymdeithasol.

(3) Bod aelod o staff wedi gadael a bod trefniadau ar y gweill i recriwtio.

(4) Yr angen i'r clwb agor yn gymdeithasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib fis Medi.

(5) Yn yr wythnosau cyntaf, rhoi gwahoddiad i gynghorwyr y Cyngor Tref i ddod i mewn i siarad gyda'r staff a'r bobl ifanc.

(6) Gan nad oedd yr adeilad presennol ar gael am gyfnod ym mis Medi, trafodwyd lleoliad gwahanol er enghraifft Feed my Lambs, Adeilad yr Institiwt neu Ganolfan Noddfa.

(7) Y dylid ystyried Walk and Talk ar gyfer y cyfnod.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Datgan yr angen i'r clwb agor yn gymdeithasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib fis Medi.

(2) Yn yr wythnosau cyntaf, rhoi gwahoddiad i gynghorwyr y Cyngor Tref i ddod i mewn i siarad gyda'r staff a'r bobl ifanc, a gofyn i'r Clerc anfon y manylion cyswllt perthnasol at Bryn.

(3) Gan nad oedd yr adeilad presennol ar gael am gyfnod ym mis Medi, gofyn i Bryn wneud ymholiadau o ran defnyddio adeiladau

fel Feed my Lambs, Adeilad yr Institiwt neu Ganolfan Noddfa yn y tymor byr.

(4) Y dylid ystyried Walk and Talk ar gyfer y cyfnod.

9. Race for Life

Nodwyd y derbyniwyd cais gan Reolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd yn gofyn a oedd y Cyngor Tref yn hapus i'r digwyddiad uchod gymryd lle ar y 19eg o Fedi.

Nodwyd fod y Cyngor wedi penderfynu mewn cyfarfod blaenorol ei fod yn awyddus i unrhyw ddigwyddiad gymryd lle os oedd yn unol â chanllawiau a rheoliadau diweddaraf Llywodraeth Cymru, ond na ddylai unrhyw ddigwyddiad gymryd lle os nag oedd yn cydymffurfio gyda'r canllawiau diweddaraf.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu efo Rheolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd i ddatgan fod y Cyngor yn hapus i Race for Life gymryd lle, os yw'n cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru (unfrydol).

10. Gweithdrefn ar gyfer Datrys Anghydfod yn Lleol

Cyflwynwyd y Weithdrefn ar gyfer Datrys Anghydfod yn Lleol, oedd wedi ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Personél. Roedd y weithdrefn yn rhoi fframwaith i ddatrys unrhyw anghydfod cyn iddo fynd allan o reolaeth.

Penderfynwyd derbyn y Weithdrefn ar gyfer Datrys Anghydfod yn Lleol, oedd wedi ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Personél (unfrydol).

11. Gohebiaeth gan Gynghorau Cymuned

(a) Cyngor Tref Nefyn - Creu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith

Nodi y derbyniwyd e-bost gan Glerc Cyngor Tref Nefyn yn datgan fod aelodau Cyngor Tref Nefyn yn awyddus i gynnal cyfarfod i greu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd fel bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cymal 6, Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Gofynnwyd a oedd gan y Cyngor ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod o'r fath.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Glerc Cyngor Tref Nefyn yn datgan y byddai gan y Cyngor Tref ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod i greu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd (unfrydol).

(b) Cyngor Cymuned Pistyll – Problemau parcio dros nos

Cyflwynwyd e-bost gan Clerc Cyngor Cymuned Pistyll yn gofyn am gefnogaeth i'w cais o ran problemau parcio dros nos.

Penderfynwyd cefnogi cais Cyngor Cymuned Pistyll a thynnu sylw Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Gwynedd i'r mater er mwyn iddynt gyflwyno mesurau fyddai'n gwneud gwahaniaeth ac yn galluogi Cyngorau Cymuned ddelio â'r broblem yn gyflymach (unfrydol).

12. Jetskis

Cyflwynwyd gohebiaeth fanwl gan "Above the Brine" yn ymateb i'r drafodaeth ddiweddar yn y Cyngor Tref o ran jetskis.

Penderfynwyd gwahodd perchnogion "Above the Brine" i gyfarfod o'r Cyngor Tref maes o law er mwyn trafod y materion a'r pryderon oedd yn codi o gwmpas jetskis (unfrydol).

13. Archwiliad lechyd a Diogelwch

Nodwyd fod gohebiaeth wedi dod i law gan gwmni Ennerdale Consulting Ltd yn cynnig gwneud Archwiliad lechyd a Diogelwch ar weithgareddau'r Cyngor.

Amlinellodd y Clerc beth oedd y cwmni'n ei gynnig, a'r pris oeddynt yn godi ar gyfer gwneud adolygiad lechyd a diogelwch.

Penderfynwyd (unfrydol):

- (1) Peidio â chymryd cynnig Ennerdale Consulting Ltd i fyny o ran gwneud archwiliad lechyd a diogelwch ar weithgareddau'r Cyngor Tref.**
- (2) Gofyn i'r Clerc siarad efo Adran lechyd a Diogelwch Cyngor Gwynedd o ran unrhyw fylchau oedd yn bodoli, gan ofyn am eu cyngor a sut y gallent gynorthwyo'r Cyngor Tref.**
- (3) Yn dilyn hyn dylid creu grŵp dechrau a gorffen er mwyn trafod beth oedd ei angen, a chyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.**

14. Contract ar gyfer y lifft yn Adeilad yr Institiwt

Nodwyd fod gohebiaeth wedi dod i law o ran adnewyddu'r contract er mwyn cynnal a chadw'r lifft yn Adeilad yr Institiwt.

Penderfynwyd, er bod gan y Clerc rai pryderon am effeithlonrwydd cwmni KONE, y dylai'r Cyngor ymrwymo i'r contract cynnal a chadw am flwyddyn arall. Byddai hyn yn rhoi amser i'r Clerc edrych ar opsiynau eraill o ran y lift (unfrydol).

Gadawodd y Cyngorwyr C.Larsen a J.W.Parry y cyfarfod am 7.00 p.m.

15. Adroddiad Blynyddol 2020/21

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21.

Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21, yn amodol ar ddiwygio'r mân gywiriadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod (unfrydol).

16. Adfywio Trefi a Chymunedau yng Nghymru wedi Covid-19

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Ann Hopcyn wedi iddi fynychu digwyddiad Unllais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru ar y pwnc ar y 23ain o Fehefin.

Nodwyd y dylai'r Cyngor Tref ystyried y pwyntiau canlynol yn benodol:

- (1) Annog cynghorau i lunio Cynllun Cynefin (efallai y gellid ystyried dau brosiect lleol, penodol sef Coed Helen ac at y dyfodol Parc y Dref).
- (2) Mai enghraifft yn cynnwys: Marchnad stryd ond generaduron yn cynhyrchu sŵn ac arogleuon, ac y dylid annog awdurdodau lleol i osod pwyntiau trydan yn eu lle.
- (3) Eiddo gwag: Fe wnaiff Llywodraeth Cymru ddigolledu cynghorau sy'n cymryd camau yn erbyn perchnogion adeiladau sy'n ddolur llygad.
- (4) Bod "angen cynghorwyr uchelgeisiol."

Nodwyd ymhellach y dylid ystyried yr uchod yng nghyd-destun adeiladau gwag yn y dref oedd mewn cyflwr gwael, er enghraifft hen adeiladau KFC a Poundstretchers.

Penderfynwyd gwahodd aelod o gyngor cymuned blaengar, er enghraifft Cyngor Tref Aberteifi, i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol agos (unfrydol).

17. Ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Clercod yng Nghymru

Cyflwynwyd e-bost a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr uchod.

Nododd y Clerc:

- (1) Bod Llywodraeth Cymru wedi pennu, mewn rheoliadau, y cymwysterau neu'r disgrifiad o gymwysterau y mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned eu dal er mwyn i'r cyngor cymuned fodloni'r ail o'r tri amod cymhwysra i ddod yn 'gyngor cymuned cymwys'. Byddai cael y statws 'cyngor cymuned cymwys' yn ei gwneud yn haws i'r Cyngor wneud pethau fel dechrau prosiect masnachol.
- (2) Bod yr ymgynghoriad ar agor hyd at y 24ain o Fedi 2021.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ofyn am sylwadau'r aelodau erbyn y 31ain o Orffennaf fel ei fod yn medru eu pasio ymlaen at Lywodraeth Cymru (unfrydol).

18. Adeilad yr Institiwt – Llogi Ystafelloedd

Cyflwynwyd e-bost gan Maria Lamburn (dosbarth Arlunio nos Fercher Cadnant) o ran costau llogi ystafell yn Adeilad yr Institiwt, ac i ddweud nad oedd yn fodlon talu pris yn uwch na phris dwy flynedd yn ôl.

Penderfynwyd caniatáu i'r rhai oedd yn defnyddio'r Institiwt ers blynyddoedd maith i dalu telerau 2019/20 am y flwyddyn ariannol yma, ac i adolygu hyn ymhen blwyddyn (unfrydol).

19. Rhybuddion o Gynnig

Cyflwynwyd y Rhybuddion o Gynnig a ganlyn:

(1) Y Cynghorydd Kenny Richards

Gofynnaf yn barchus i'r Cyngor Tref ystyried teilyngdod cysylltu â Chyngor Gwynedd, gyda'r bwriad o osod cyfyngiadau parcio ymarferol o fewn waliau hanesyddol y dref rhwng 11am a 6pm.

Rwy'n tynnu sylw arbennig at Stryd Twll yn y Wal a Stryd y Plas, lle bu anghydfod parhaus rhwng preswylwyr ac aelodau o'r cyhoedd a pherchnogion busnes. Rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r mater sy'n achosi risg sylweddol i iechyd a diogelwch i bawb dan sylw gan barcio anghyfreithlon, sy'n rhwystro a / neu'n anystyriol

A gaf awgrymu y dylai'r cynghorwyr tref y ward perthnasol gynnal ymarfer casglu gwybodaeth trwy ymweld â safleoedd busnes a thrigolion i goladu barn, er mwyn darparu adroddiad cytbwys i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r swyddogion perthnasol yng Nghyngor Gwynedd am y problemau cyfredol.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i adolygu'r sefyllfa o ran iechyd a diogelwch, i ofyn iddynt wneud adroddiad ar y pwnc a bod y Cyngor Tref yn cael copi o'r adroddiad hwnnw (unfrydol).

(2) Y Cynghorydd Dawn L. Jones

Roeddwn i a llawer o drigolion Caernarfon wedi cael siom ofnadwy wrth gyrraedd mynwent Llanbeblig dros benwythnos y 19/20 o Fehefin i dalu teyrnged i'n hanwyliaid ar Sul y tadau...Roedd y gwair wedi tyfu yn uchel, roedd hi'n anodd i'r rhai oedd â phroblemau symudedd gyrraedd lan y bedd. Roedd y fynwent yn edrych yn flêr ofnadwy...

Mae digon anodd ymweld â'r fynwent unrhyw ddiwrnod ond rwyf yn teimlo bod yr olygfa yma wedi gwneud y broses yn un torcalonnus. Oes posib i ni Cynghorwyr Cyngor Tref Caernarfon ysgrifennu llythyr at yr adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd i ddatgan ein siom a gofyn a oes posib i'r amserlen flynyddol ystyried dyddiadau pwysig fel, Sul y mamau, tadau, Sul y Blodau etc er mwyn gwneud yn siŵr bod y fynwent yn edrych yn dwt ar y dyddiadau arwyddocaol yma?

Penderfynwyd ysgrifennu llythyr at yr adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd i ddatgan siom y Cyngor Tref, a gofyn a oes posibil i'r amserlen flynyddol o dorri gwair ym Mynwent Llanbeblig ystyried dyddiadau pwysig fel, Sul y mamau, Sul y Tadau, Sul y Blodau ac yn y blaen er mwyn sicrhau bod y fynwent yn edrych yn dwt ar y dyddiadau arwyddocaol yma (unfrydol).

18. Cwestiynau

Gofynnodd y Cynghorydd Ann Hopcyn beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Traffont yng Nghaernarfon, a nododd y Clerc y bydd yn cysylltu gyda'r Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd, gyda'r bwriad o roi eitem ar raglen y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ym mis Medi.

19. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriadig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (unfrydol).

20. Grant CaerAilGyfle

[Redacted text block]

[Redacted]	[Redacted]
[Redacted]	[Redacted]
[Redacted]	[Redacted]

[REDACTED]	
[REDACTED]	[REDACTED]
[REDACTED]	
[REDACTED]	[REDACTED]
[REDACTED]	
[REDACTED]	[REDACTED]
[REDACTED]	
[REDACTED]	[REDACTED]
[REDACTED]	
[REDACTED]	

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

22. Tendrau

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc o ran y canlynol:

[REDACTED]

Arwyddwyd

Dyddiad